Braslun o elusennau yng Nghymru

COMISIWN ELUSENNAU

Cynnwys

Braslun o elusennau yng Nghymru

Casgliadau allweddol 2

Ffigurau cefndir 2

Tabl 1 Elusennau yng Nghymru gydag incwm o fwy na £10 miliwn 2

Incwm elusennau yng Nghymru 3

Canran incwm ym mhob band incwm 3

Cofrestru a dileu 4

Cyfanswm yr elusennau cofrestredig yng Nghymru 1 Ebrill 2004 i 1 Ebrill 2008 4

Ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr yng Nghymru 4

Dadansoddiad o ymddiriedolwyr yn ôl oedran 5

Ble mae elusennau yng Nghymru yn gweithredu? 5

Gweithgareddau elusennau yng Nghymru 6

Mathau o weithgareddau a gyflawnir gan elusennau yng Nghymru 6

Daearyddiaeth elusennau yng Nghymru 7

Nifer yr elusennau yng Nghymru yn ôl ardal awdurdod lleol 7

Nifer yr elusennau yn ôl y mil o'r boblogaeth 8

Yr elusen hynaf yng Nghymru 8

Elusennau sydd newydd gofrestru 9

Gwaith Swyddfa Cymru 9

Atodiad 1

Tabl 1 Gweithgareddau elusennau cofrestredig yng Nghymru 2008 10

Tabl 2 Cofrestru a dileu elusennau yng Nghymru, blwyddyn ariannol 2004/05 i 2007/08 10

Tabl 3 Incwm elusennau cofrestredig yng Nghymru, Gorffennaf 2008 11

Tabl 4 Nifer yr elusennau cofrestredig yng Nghymru yn ôl band incwm, Gorffennaf 2008 11

Tabl 5 Nifer ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig yng Nghymru yn ôl band oedran, Gorffennaf 2008 11

Atodiad 2

Adnoddau 12

Braslun o elusennau yng Nghymru

Mae'r Comisiwn Elusennau yn rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr, ac ar hyn o bryd mae mwy na 190,000 o elusennau cofrestredig a thua 100,000 o elusennau digofrestredig. Mae elusennau yn gwneud amrywiaeth fawr o weithgareddau ac mae hwn yn un o gyfres o adroddiadau sy'n ceisio helpu ehangu dealltwriaeth o elusennau a'u gwaith. Mae'r adroddiadau yn rhan o'n cenhadaeth i helpu elusennau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, a gwella eu heffeithiolrwydd, eu dylanwad a'u hatebolrwydd.

Casglwyd y data ar gyfer yr adroddiad hwn rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2008.

Casgliadau allweddol

- Mae ychydig dros 9,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru, gyda bron 42,000 o ymddiriedolwyr.
- Gyda'i gilydd mae gan yr elusennau hyn gyfanswm incwm o £982 miliwn.
- Mae tua 250 o elusennau newydd yn cael eu cofrestru yng Nghymru bob blwyddyn.
- Mae'r elusen gofrestredig hynaf y gwyddys amdani yn dyddio o tua 1290.

Ffigurau cefndir

Mae 9,006 o brif elusennau yng Nghymru[1] a 760 o is-elusennau[2] wedi'u cofrestru yng Nghymru. Gyda'i gilydd mae ganddynt incwm o £982 miliwn ac maent yn cyfrif am 5% o'r holl elusennau ar y Gofrestr.

Mae 8,118 (90%) ohonynt yn gweithio yng Nghymru yn unig ac mae 230 (3%) yn gweithio'n rhyngwladol. Mae'r 658 sy'n weddill o'r 9,006 (7%) yn gweithio yng Nghymru ac yn Lloegr.

Mae'r elusennau mwyaf yng Nghymru yn ôl incwm yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru. Fe welwch enghreifftiau eraill o elusennau gydag incwm o fwy na £10 miliwn yn nhabl 1.

Tabl 1 Elusennau yng Nghymru gydag incwm o fwy na £10 miliwn

Rhif cofrestredig	Enw'r elusen	Incwm (£)
1034245	Cyngor Celfyddydau Cymru, The Arts Council For Wales	£38,645,000
525774	Amgueddfa Genedlaethol Cymru	£29,685,000
1073332	WJEC CBAC Cyfyngedig	£26,600,000
218093	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	£26,096,429
702290	Cartrefi Cymru Cyfyngedig	£18,820,000
221538	Opera Cenedlaethol Cymru	£17,273,049
517149	Opportunity Housing Trust	£17,164,800
1060458	Canolfan Mileniwm Cymru	£13,582,000
525775	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	£13,325,000
1046763	Perthyn	£11,567,553
1048771	The Trinity College Carmarthen Foundation	£11,557,147
232835	The English Province of the Sisters of Saint Joseph of Annecy	£10,226,961
703002	Drive	£10,118,348

[1] Yn seiliedig ar ddata wedi'i gymryd o gyfeiriad gohebydd yr elusen.

[2] Mae cyfrifon is-elusennau wedi'u hagregu â chyfrifon y brif elusen.

Amcangyfrifwn y gallai fod tua 2,000 o elusennau digofrestredig gyda statws a eithrir neu a esgusodir,[3] sy'n golygu bod cyfanswm yr elusennau yng Nghymru yn nes at 11,000. Byddai'r ffigur hwn yn cynrychioli ychydig dros un rhan o dair o'r holl sefydliadau trydydd sector oedd wedi'u cynnwys mewn dadansoddiad diweddar o'r trydydd sector yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 'Y trydydd sector yng Nghymru 2008'.[4]

Incwm elusennau yng Nghymru

Mae'r dadansoddiad o elusennau yng Nghymru yn ôl band incwm ychydig yn wahanol i'r dadansoddiad o elusennau ar draws y Gofrestr. Mae'r graff isod yn dangos bod nifer yr elusennau bach, y rhai gydag incwm o lai nag £1 miliwn, yn fwy na chyfran yr elusennau bach ar draws y Gofrestr gyfan. Mae hefyd yn dangos bod cyfran lai o elusennau mwy yng Nghymru, hy yr elusennau hynny gydag incwm o fwy na £5 miliwn na'r Gofrestr gyfan.

Canran yr incwm ym mhob band incwm



[3] Mae elusennau a eithrir yn parhau i gael eu cynnwys o dan awdurdodaeth y Comisiwn Elusennau er eu bod wedi'u heithrio ar hyn o bryd o'r gofynion cofrestru ac adrodd blynyddol. Mae elusennau sydd wedi'u heithrio yn elusennau lle mae awdurdodaeth gan brif reolydd arall, ee mae gan y Gorfforaeth Dai bŵer rheoleiddio dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

[4] Am wybodaeth bellach ar Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gweler www.wcva.org.uk

Cofrestru a dileu

Ers 2004, (sef y flwyddyn yr agorodd Swyddfa Cymru), mae nifer yr elusennau yng Nghymru wedi parhau i dyfu (ac eithrio'r flwyddyn ariannol ddiwethaf lle roedd ychydig o ostyngiad). Yn ystod y cyfnod hwn, mae 1,188 o elusennau newydd yng Nghymru wedi cael eu hychwanegu at y Gofrestr ac mae 1,009 o elusennau wedi cael eu dileu.

Cyfanswm yr elusennau cofrestredig yng Nghymru 1 Ebrill 2004 i 1 Ebrill 2008



Mae manylion elusennau sydd wedi cofrestru'n ddiweddar ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau.

Ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr yng Nghymru

Mae gan elusennau cofrestredig yng Nghymru 41,839 o ymddiriedolwyr, sef cyfartaledd o bum ymddiriedolwr yr elusen sydd yr un fath â'r cyfartaledd yr elusen a gofnodwyd ar draws y Gofrestr gyfan. Oedran cyfartalog ymddiriedolwyr yng Nghymru yw 58 oed. Yr oedran cyfartalog ar draws y Gofrestr gyfan yw 57 oed (gweler atodiad 1, tabl 5 am fanylion pellach). Mae cyfran yr ymddiriedolwyr benyw a gwryw hefyd yn debyg i'r holl ymddiriedolwyr ar draws y Gofrestr, gyda 55% o ymddiriedolwyr yn wryw a 45% yn fenyw.

Mae elusennau gydag incwm o fwy na £500,000 yn rhoi gwybodaeth erbyn hyn i'r Comisiwn Elusennau am nifer y gwirfoddolwyr. Hyd yma, rydym wedi derbyn manylion gan 276 o'r elusennau hyn yng Nghymru. Rhyngddynt, mae ganddynt 79,584 o wirfoddolwyr. Mae cyfanswm y gwirfoddolwyr yng Nghymru yn debygol o fod yn llawer mwy.

Dadansoddiad o ymddiriedolwyr yn ôl oedran



Ble mae elusennau yng Nghymru yn gweithredu?

Mae elusennau a leolir yng Nghymru ychydig yn fwy tebygol o weithio'n lleol neu'n genedlaethol o fewn Cymru ac ychydig yn llai tebygol o weithio'n rhyngwladol nag elusennau ar draws y Gofrestr. Er enghraifft, mae 8,118 (90%) o elusennau sy'n gweithio yng Nghymru yn gweithio o fewn Cymru yn unig (sef 4% yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer elusennau yn Lloegr sy'n gweithredu yn Lloegr yn unig). Mae 230 neu 3% yn adrodd eu bod yn gweithio'n rhyngwladol (gweler y siart cylch isod am fanylion), o'i gymharu â 6% o elusennau sy'n adrodd eu bod yn gweithio'n rhyngwladol ar draws y Gofrestr.



Gweithgareddau elusennau yng Nghymru

Mae'n gyffredin i elusen ymwneud ag amryw o weithgareddau. Er enghraifft, gallai elusen sy'n seiliedig ar ddatblygiad cymunedol ddarparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc, a gwasanaeth cynghori i'r henoed. Am y rheswm hwn, mae elusennau yn cael cyfle yn y ffurflenni blynyddol a gesglir gan y Comisiwn Elusennau i ddewis mwy nag un categori gweithgaredd. Mae'r siart isod yn dangos nifer yr elusennau sy'n dewis pob categori. *Sylwch mae'n bosibl bod un elusen wedi dewis mwy nag un categori.*

Mathau o weithgareddau a gyflawnir gan elusennau yng Nghymru



Mae elusennau yng Nghymru yn darparu'r un mathau o weithgareddau ag elusennau ar draws y Gofrestr (gweler atodiad 1, tabl 1 am ddata cymharol). Mae'r tri grŵp o brif weithgareddau elusennol yn cynnwys:

- addysg neu hyfforddiant, a ddarperir gan 46% o elusennau yng Nghymru;
- gweithgareddau chwaraeon ac adloniadol, a ddarperir gan 21% o elusennau yng Nghymru; a
- gweithgareddau'r celfyddydau a diwylliannol, a ddarperir gan 20% o elusennau yng Nghymru.

Daearyddiaeth elusennau yng Nghymru

Mae ymchwil cychwynnol yn awgrymu bod y dosbarthiad o elusennau yng Nghymru yn adlewyrchu'r patrwm cyffredinol ar draws y Gofrestr gyfan; hynny yw, mae'n ymddangos bod mwy o elusennau y pen o'r boblogaeth mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd sydd heb fod yn wledig.

Mae'r mapiau yn dangos dadansoddiad o'r elusennau yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae'r map cyntaf yn dangos nifer yr elusennau ym mhob ardal ac mae'r ail yn dangos nifer yr elusennau yn ôl y mil o'r boblogaeth. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod y fethodoleg wedi tynnu sylw at fannau poeth arbennig; er enghraifft, mae llawer mwy o elusennau mewn rhai trefi a siroedd nag y gellid fod wedi disgwyl. Mae hyn yn cynnwys rhannau o Port Talbot a Chaerfyrddin.

Nifer yr elusennau yng Nghymru yn ôl ardal awdurdod lleol



Data mapiau © Hawlfraint y goron 2009. Cedwir pob hawl. Comisiwn Elusennau 100047913 (2009).

Nifer yr elusennau yn ôl y mil o'r boblogaeth



Data mapiau © Hawlfraint y goron 2009. Cedwir pob hawl. Comisiwn Elusennau 100047913 (2009).

Yr elusen hynaf yng Nghymru

The Laugharne Corporation Lands (rhif elusen 218121) yw'r elusen gofrestredig hynaf y gwyddys amdani yng Nghymru, sy'n dyddio o tua 1290. Cafodd yr wybodaeth hon ei holrhain o'r wybodaeth ar y Gofrestr Elusennau.[5]

Dibenion yr elusen yw lleddfu tlodi, hyrwyddo addysg, darparu amwynderau cyhoeddus a chadw a gwarchod tir ac adeiladau o deilyngdod hanesyddol, gwyddonol, pensaernïol neu addysgol; nid yw'r rhain wedi newid ers iddi gael ei sefydlu. Eto i gyd mae'r mathau o waith y mae'n ymgymryd â nhw wedi newid dros amser er mwyn adlewyrchu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd sy'n newid. Ar un adeg roedd yr elusen yn rhoi cymorth i blant amddifad a gwragedd gweddw Brwydr Trafalgar. Ond yn fwy diweddar mae wedi rhoi arian i helpu ysgolion lleol a phrosiectau ieuenctid, ac wedi gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i glirio ac adfywio tir a ddynodwyd fel safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

[5] Mae'r Gofrestr yn cofnodi manylion sefydliadau:
- sydd wedi cael eu cydnabod fel rhai elusennol yn ôl y gyfraith;
- y mae pob un o'u hymddiriedolwyr neu'r mwyafrif ohonynt yn byw yng Nghymru a/neu Loegr fel rheol;
- neu sy'n gwmnïau a gorfforwyd yng Nghymru a Lloegr.

Gweler y cyswllt canlynol am fanylion pellach
http://www.charity-commission.gov.uk/showcharity/registerofcharities/registerhomepage.aspx?&=&

Elusennau sydd newydd gofrestru

Mae Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Sir Fynyw, Ymddiriedolaeth Eglwys Thornhill, a Phrosiect Ieuenctid Caerfyrddin yn enghreifftiau o rai o'r elusennau sydd wedi cofrestru yn y blynyddoedd diweddar yng Nghymru.

Mae Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Sir Fynyw (rhif elusen1119625) yn gwneud gwaith ymchwil ac yn casglu gwybodaeth i addysgu pobl am fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ailgylchu, lleihau llygredd, a hybu gwarchod yr amgylchedd. Mae Ymddiriedolaeth Eglwys Thornhill (rhif elusen1122810) yn hyrwyddo'r ffydd Gristnogol ymysg trigolion Gogledd Caerdydd ac mae Prosiect Ieuenctid Caerfyrddin (rhif elusen 1124727) yn addysgu ac yn cynorthwyo pobl ifanc trwy weithgareddau hamdden i ddatblygu eu galluoedd corfforol, meddyliol ac ysbrydol er mwyn iddynt allu datblygu'n llawn fel unigolion ac aelodau cymdeithas.

Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Sir Fynyw

Gwaith Swyddfa Cymru

Mae ein tîm yn Swyddfa Cymru, Casnewydd yn darparu cymorth penodol i elusennau yng Nghymru gan geisio sicrhau eu heffaith a'u heffeithiolrwydd mwyaf posibl. Mae'r swyddfa wedi meithrin cysylltiadau â Chynulliad Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff mantell gan gynnwys y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, CISWO (Coal Industry Social Welfare Organisation) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ceisiwn gynnal cysylltiadau â'r sector yng Nghymru trwy ddarparu cymorth un i un i elusennau unigol trwy gyfrwng cyngor a chydsyniad rheoleiddiol. Croesawn ohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gobeithiwn fod y braslun hwn yn adlewyrchu cryfder y sector elusennol yng Nghymru, yn ogystal â bod yn sylfaen ddefnyddiol ar gyfer olrhain newidiadau yn y blynyddoedd i ddod.

Am wybodaeth bellach neu gwestiynau am y data hwn cysylltwch â'r Tîm Ymchwil trwy'r e-bost: Research@charitycommission.gsi.gov.uk

Fel arall, cysylltwch â'n tîm yng Nghymru trwy Harry Iles, Pennaeth Swyddfa Cymru: Harry.Iles@charitycommission.gsi.gov.uk

Neu ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 3000 218.

Atodiad 1

Tabl 1 Gweithgareddau elusennau cofrestredig yng Nghymru, Gorffennaf 2008

Math o weithgaredd	Nifer yng Nghymru	% yr elusennau yng Nghymru sy'n dewis pob categori	Nifer ar draws y Gofrestr	% ar draws y dewis pob categori
Addysg / Hyfforddiant	4,154	46	82,093	48
Dibenion elusennol cyffredinol	2,251	25	45,663	27
Chwaraeon/Adloniant	1,927	21	31,083	18
Y Celfyddydau/ Diwylliant	1,834	20	27,141	16
Economaidd/Datblygiad Cymunedol/Cyflogaeth	1,169	13	18,725	11
Gweithgareddau crefyddol	1,137	13	25,432	15
Amgylchedd/ Cadwraeth/Treftadaeth	1,109	12	17,972	11
Meddygol/Iechyd/ Salwch	1,083	12	23,489	14
Anabledd	1,017	11	19,797	12
Lleddfu tlodi	935	10	26,935	16
Cymorth dramor/Lleddfu newyn	379	4	9,521	6
Llety/Tai	332	4	8,753	5
Anifeiliaid	243	3	3,515	2
Dibenion elusennol eraill	148	2	2,813	2
Cyfanswm	17,718		342,932	

Gall elusennau ddewis mwy nag un categori

Tabl 2 Cofrestru a dileu elusennau yng Nghymru, blwyddyn ariannol 2004/05 - 2007/08

	Nifer yr elusennau a gafodd eu cofrestru	Nifer yr elusennau a gafodd eu dileu	Cyfanswm yr elusennau ar draws y Gofrestr yng Nghymru	Nifer yr elusennau ar draws y Gofrestr
2004/05	264	177	8,886	163,345
2005/06	278	254	8,910	165,401
2006/07	206	209	8,907	166,662
2007/08	240	157	8,990	167,307
Cyfanswm	988	797		

Tabl 3 Incwm elusennau cofrestredig yng Nghymru, Gorffennaf 2008

	Cyfanswm incwm elusennau yng Nghymru yn ôl band incwm (£)	% incwm elusennau yng Nghymru yn ôl band incwm	Cyfanswm incwm elusennau ar draws y Gofrestr yn ôl band incwm (£)	% incwm elusennau ar draws y Gofrestr
Llai na £10k	0.01 bn	1.62	0.0279 bn	0.06
£10k - £100k	0.07 bn	7.3	1.714 bn	3.73
£100k - £250k	0.08 bn	7.69	1.752 bn	3.81
£250k - £1m	0.19 bn	19.1	4.360 bn	9.5
£1mn - £5mn	0.29 bn	29.08	8.712 bn	18.98
£5 mn £10 mn	0.1 bn	10.3	5.781 bn	12.6
£10mn+	0.24 bn	24.91	23.312 bn	50.78
Cyfanswm	0.98 bn		45.91bn	

Tabl 4 Nifer yr elusennau cofrestredig yng Nghymru yn ôl band incwm, Gorffennaf 2008

	Cyfanswm yng Nghymru	% yng Nghymru	Cyfanswm ar draws y Gofrestr	% ar draws y Gofrestr
Llai na £10k	5,796	64.36	94,240	55.65
£10k - £100k	2,192	24.34	49,812	29.42
£100k - £250k	463	5.14	10,910	6.44
£250k - £1m	387	4.3	8,822	5.21
£1mn - £5mn	139	1.54	4,028	2.38
£5 mn £10 mn	16	0.18	815	0.48
£10mn+	13	0.14	706	0.42
Cyfanswm	9,006		169,333	

Tabl 5 Nifer ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig yng Nghymru yn ôl band oedran, Gorffennaf 2008

	Nifer yr ymddiriedolwyr ar gyfer elusennau yng Nghymru	% yr ymddiriedolwyr ar gyfer elusennau yng Nghymru	Nifer yr ymddiriedolwyr ar draws y Gofrestr	% yr ymddiriedolwyr ar draws y Gofrestr
Llai na 30	832	1.99%	15,553	1.90%
30-39	3,498	8.36%	82,123	10.04%
40-49	6,926	16.55%	160,543	19.63%
50-59	8,852	21.16%	176,797	21.62%
60-69	11,621	27.78%	210,841	25.78%
70 a mwy	10,110	24.16%	171,921	21.02%
Cyfanswm	41,839		817,778	

Atodiad 2

Adnoddau

Coal Industry Social Welfare Organisation (CISWO)
Woodland Terrace
Maesycoed
Pontypridd
Morgannwg Ganol
CF37 1DZ

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Desg gymorth: 0800 2888 329
E-bost: help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Cynghorau Gwirfoddol Sirol

- Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Powys
- Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Pen-y-bont
- Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
- Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Ceredigion
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Gwent
- Mantell Gwynedd
- Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Medrwn Môn
- Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Penfro
- Interlink
- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
- Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
- Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
- Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Wrecsam

Mae modd cyrchu'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd:
www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2009. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Data mapiau © Hawlfraint y goron 2009. Cedwir pob hawl. Comisiwn Elusennau 100047913 (2009).

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddaucynaliadwy yn unig ac mae'n hollol rydd rhag clorin.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Trwy'r post: **Charity Commission Direct**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Braslun o elusennau yng Nghymru. Ionawr 2009.
ISBN 978-1-84922-013-2